HYSBYSIAD STATUDOL

Cynnig i Gau Pedair Ysgol Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir a Sefydlu Ysgol Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Cyfrwng Saesneg 3–18 Newydd yn Sir y Fflint

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 - Adrannau 41 a 43

Cyngor Sir y Fflint, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, CH5 3FF

Yn unol ag Adran 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2026 rhoddir rhybudd bod Cyngor Sir y Fflint, ar ôl cynnal yr ymgynghoriad statudol angenrheidiol, yn cynnig cau yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir canlynol:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Stryd Fawr, Saltney CH4 8SG.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David, St David's Lane, Yr Wyddgrug CH7 1LH.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, Ffordd Llewelyn, y Fflint CH6 5JZ.
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, Albert Avenue, y Fflint CH6 5JZ

Mae'r pedair ysgol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gan Gyngor Sir y Fflint ac yn darparu addysg trwy gymeriad crefyddol Catholig, ac Esgobaeth Gatholig Wrecsam yw'r corff crefyddol.

Rhoddir rhybudd hefyd, yn unol ag Adran 41 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2026, bod Esgobaeth Gatholig Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint, ar ôl cynnal yr ymgynghoriad statudol angenrheidiol, yn cynnig sefydlu Ysgol Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir cyfrwng Saesneg newydd ar gyfer merched a bechgyn rhwng 3-18 oed. (Cyfeirir ati o hyn allan fel "yr ysgol newydd").

Mae Ysgolion 'Gwirfoddol a Gynorthwyir' yn ysgolion a ariennir gan arian cyhoeddus ac mae'r corff llywodraethu yn gyfrifol am faterion megis staffio a derbyniadau. Mae gan yr Esgobaeth ddylanwad sylweddol dros lywodraethu ac ethos crefyddol yr ysgol, yn bennaf trwy benodi llywodraethwyr sylfaen. Mae cyfrifoldebau am safle'r ysgol a gwariant cyfalaf yn cael eu llywodraethu gan y trefniadau statudol, ariannu a pherchnogaeth perthnasol.

Bydd yr ysgol newydd yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir y Fflint, a'i chorff llywodraethu fydd yr awdurdod derbyn, sy'n gyfrifol am bennu a gweinyddu trefniadau derbyn yr ysgol.

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dewis ar sail dawn na bandio disgyblion.

Lleoliad a Chapasiti'r Ysgol Newydd

I ddechrau bydd yr ysgol newydd yn weithredol ar draws safleoedd Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.

Yn amodol ar gwblhau'r rhaglen adeiladu, bydd bob disgybl yna'n symud i adeilad yr ysgol newydd yn Ffordd Llewelyn / Albert Avenue, y Fflint, CH6 5JZ.

Mae map sy'n dangos safle'r ysgol newydd arfaethedig wedi'i gynnwys gyda'r hysbysiad hwn.

Cyfanswm capasiti arfaethedig yr ysgol newydd fydd 1,185 o leoedd disgyblion, yn cynnwys:

- 315 o leoedd cynradd llawn amser.
- 750 o leoedd uwchradd llawn amser ym Mlynyddoedd 7–11.
- Lle i 120 yn y chweched dosbarth
- Lle i 45 disgybl yn y Meithrin, yn ychwanegol i'r capasiti cyfan a nodwyd.

Y nifer derbyn arfaethedig a gyhoeddir fydd:

- **Derbyn:** 45 o ddisgyblion llawn amser.
- **Blwyddyn 7**: 150 o ddisgyblion llawn amser.

Bydd y corff llywodraethu yn gyfrifol am y trefniadau derbyn, a fydd yn gweithredu yn unol â'r gofynion statudol perthnasol a'r fframwaith derbyn.

Trefniadau Gweithredu Arfaethedig

Yn amodol ar gymeradwyaeth statudol, bydd y cynigion yn cael eu gweithredu mewn camau fel a ganlyn:

31 Awst 2027

- Bydd Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney yn cau yn barhaol.
- Bydd Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint yn cau fel ysgolion ar wahân.

1 Medi 2027

- Bydd ysgol Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir cyfrwng Saesneg newydd i ddisgyblion 3-18 oed yn cael ei sefydlu, gydag enw, rhif ysgol a chorff llywodraethu newydd.
- Bydd yr ysgol newydd yn weithredol ar draws y tri safle ysgol presennol yn yr Wyddgrug a'r Fflint o dan un strwythur arweinyddiaeth a llywodraethu.

Disgwylir ar gyfer 1 Medi 2030

- Bydd disgyblion yn symud i'r ysgol newydd a adeiladwyd yn bwrpasol yn Ffordd Llewelyn / Albert Avenue, y Fflint, CH6 5JZ.
- Mae'n bwysig nodi y cynigir bod Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Stryd Fawr, Saltney CH4 8SG, yn cau ar 31 Awst 2027 ac ni fydd yn rhan o drefniadau'r ysgol newydd arfaethedig.

Mae'r dyddiad symud disgwyliedig yn amodol i newid yn dibynnu ar y rhaglen adeiladu a chwblhau'r gymeradwyaeth angenrheidiol.

Bydd y prosiect adeiladu cyfalaf yn cael ei gyflawni trwy Raglen Datblygu Cyfalaf Cyngor Sir y Fflint. Bydd trefniadau llywodraethu a gweithredol ar gyfer yr ysgol newydd yn cael eu datblygu gan y corff llywodraethu dros dro ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint ac Esgobaeth Gatholig Wrecsam.

Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony

Mae'n bwysig nodi y cynigir bod Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Stryd Fawr, Saltney CH4 8SG, yn cau'n barhaol ar 31 Awst 2027 ac ni fydd yn rhan o drefniadau'r ysgol newydd arfaethedig.

Yn annhebyg i Sant David a Sant Richard Gwyn, ni fydd Sant Anthony yn rhan o'r ysgol newydd.

Bydd angen i ddisgyblion sy'n mynychu Sant Anthony ar hyn o bryd wneud cais am leoedd mewn ysgolion eraill, yn dibynnu ar ddewis y rhieni, y trefniadau derbyn perthnasol a'r lleoedd sydd ar gael.

Darpariaeth Ysgol Amgen

Mae'r ysgolion canlynol wedi eu hadnabod fel darpariaeth Gatholig Cyfrwng Saesneg amgen posib i ddisgyblion a effeithir gan y cau arfaethedig:

- **Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Cyfrwng Saesneg yr Hybarch Edward Morgan,** Caernarfon Close, Shotton CH5 1AR
- **Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Cyfrwng Saesneg Santes Winefride,** Whitford Street, Treffynnon CH8 7NJ
- **Yr Ysgol Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Cyfrwng Saesneg 3-18 Newydd,** Ffordd Llewelyn/Albert Avenue, y Fflint CH6 5JZ

Gall rhieni a gofalwyr fynegi dewis a ffefrir ar gyfer unrhyw un o'r ysgolion hyn neu ysgol arall o'u dewis. Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried gan yr awdurdod derbyn perthnasol yn unol â Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, gan gynnwys adran 86(3), a'r trefniadau derbyn perthnasol.

Mae'r Cyngor yn ystyried bod digon o leoedd ar gael o fewn darpariaeth amgen arfaethedig ac nid yw'n cynnig mesurau ychwanegol i gynyddu nifer y lleoedd ysgol yn benodol o ganlyniad i'r cynnig i gau.

Ni chynigir unrhyw gyfleusterau ysgol eraill dros dro ar gyfer Sant Anthony. Bydd y trefniadau pontio ar gyfer yr ysgol newydd yn cynnwys ei gweithrediad ar draws y tri safle sy'n bodoli nes bod yr adeilad newydd ar gael.

Trefniadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Bydd trefniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r ysgol newydd neu'n trosglwyddo i ysgol arall, hyd yn oed os nad yw'r ysgol honno wedi ei rhestru uchod, yn cael eu pennu yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Cyngor Sir y Fflint a'i rhwymedigaethau statudol o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Bydd cymhwysedd yn cael ei asesu wrth ystyried y meini prawf pellter perthnasol, y llwybrau cerdded sydd ar gael a'u diogelwch, amgylchiadau dysgwyr unigol ac unrhyw ddarpariaethau cludiant enwadol perthnasol.

Gall disgyblion sy'n mynychu ysgol arall nad yw'n cael ei rhestru'n benodol yn yr hysbysiad hwn, hefyd gael eu hystyried ar gyfer cymorth gyda chludiant yn unol â'r polisi perthnasol a'r gofynion statudol.

Mae mwy o wybodaeth, gan gynnwys meini prawf cymhwyso a threfniadau ymgeisio, ar gael yn: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Transport-Application.aspx

Dogfennau Ymgynghori ac Atodol

Bu i Gyngor Sir y Fflint ac Esgobaeth Gatholig Wrecsam gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynigion 16 Mehefin 2026 – 29 Gorffennaf 2026.

Mae crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori a gyhoeddwyd ar 26 Hydref 2026.

Mae'r Adroddiad Ymgynghori a'r dogfennau ategol ar gael ar wefan y Cyngor: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Catholic-Education-Proposal.aspx

Gellir gofyn am gopïau caled o'r Adroddiad Ymgynghori a'r dogfennau ategol gan y Tîm Moderneiddio Ysgolion gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Cyfnod Gwrthwynebu Statudol

Gall unrhyw un wrthwynebu i'r cynigion o fewn y cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod yn dechrau gyda dyddiau cyhoeddi'r hysbysiad hwn.

Y dyddiad cau ar gyfer cael gwrthwynebiadau statudol yw **11:59pm ar ddydd Mawrth 08 Rhagfyr 2026.**

I'w hystyried fel gwrthwynebiadau statudol, rhaid cyflwyno'r gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig, yn y Gymraeg neu'r Saesneg, gan gynnwys ar e-bost, a rhaid eu cael cyn diwedd y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Dylid cyflwyno gwrthwynebiadau i:

Y Tîm Moderneiddio Ysgolion
Cyngor Sir y Fflint
Tŷ Dewi Sant
Parc Dewi Sant
Ewlo
Sir y Fflint CH5 3XT

E-bost: CatholicEducationConsultation@flintshire.gov.uk

Dylai bob gwrthwynebiad gynnwys enw llawn a chyfeiriad y sawl sy'n cyflwyno'r gwrthwynebiad a nodi'n glir y cynnig neu'r cynigion y mae'r gwrthwynebiad yn ymwneud ag o.

Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, bydd gwrthwynebiadau statudol yn cael eu hystyried yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2026 cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol.

Llofnod ……..... **10 Tachwedd 2026**

Claire Homard
Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid, Cyngor Sir y Fflint.

NODYN EGLURHAOL

- Mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol am adolygu a moderneiddio darpariaeth ysgol i sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at gyfleoedd addysgol o ansawdd uchel a'u bod yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial llawn.
- Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod digon o leoedd ysgol o'r math priodol ar gael, mewn lleoliadau addas, i fodloni'r galw cyfredol a galw'r dyfodol.
- Mae cynnal a chadw parhaus nifer uchel o adeiladau ysgol sy'n hŷn ac isadeiledd cysylltiedig yn cyflwyno heriau ariannol a gweithredol sylweddol ac ni ystyrir ei fod yn gynaliadwy yn yr hirdymor.
- Nodwyd y rhesymeg dros y cynnig yn y Ddogfen Ymgynghori a gyhoeddwyd ar 16 Mehefin 2026.
- Mae'r materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, ynghyd ag ymatebion y Cyngor, wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori, sydd ar gael ar wefan y Cyngor: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Catholic-Education-Proposal.aspx
- Gellir gofyn am gopi caled o'r Adroddiad Ymgynghori gan y Tîm Moderneiddio Ysgolion gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, neu drwy ffonio 01352 704014, 01352 704018 neu 01352 702188.
- Disgwylir y bydd disgyblion yn symud i'r adeilad ysgol newydd ar 1 Medi 2030. Mae'r dyddiad hwn yn ddangosol a gallai newid yn dibynnu ar gynnydd y rhaglen adeiladu.

MAP SAFLE ARFAETHEDIG

